



Comisiynydd Plant Cymru

Beth Nesa? What Next?

Y canfyddiadau






**Mae'r adroddiad yma ar gael mewn
fformatau eraill drwy roi galwad i ni ar
01792 765600 neu drwy anfon e-bost
i post@complantcymru.org.uk**



Rhagair	4
Crynodeb Gweithredol	8
Cyd-destun	16
Darpariaeth	20
Diogelwch	30
Dweud eich Dweud	34
Deall eich Hawliau	40
Blaenoriaethau	44
Diwedd glo	50
Atodiad	54

1. Teitl y Comisiynydd Plant
2. Gwahaniaethau rhwng grwpiau o bobl ifanc



beth nesa'
what next

dweud eich dweud
have your say

Rhagair

Rydw i wrth fy modd yn cyflwyno'r adroddiad hwn, sy'n dilyn fy ymgynghoriad Beth Nesa ll What Next? (y bydda i'n cyfeirio ato o hyn allan fel Beth Nesa?) gyda phlant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n gofalu ac â gofal amdanyn nhw. Fy rôl i fel Comisiynydd Plant Cymru yw bod yn llais annibynnol i holl blant a phobl ifanc Cymru. Er mwyn bod yn bencampwr effeithiol mae rhaid i mi gael clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc pa bethau maen nhw'n teimlo dylwn i fod yn codi llais amdanyn nhw. Rydw i eisiau i blant a phobl ifanc helpu i ddewis fy mlaenoriaethau, ac rydw i am iddyn nhw fy ngalw i gyfrif am y pethau bydda i'n addo eu gwneud â'u syniadau. Yr her i bob un ohonon ni yw creu gwlad sy'n gosod gwerth ar blant a phobl ifanc fel dinasyddion, yma, nawr. I gyflawni hynny, mae angen iddyn nhw fod yn ddiogel, gallu cyrchu'r pethau sydd eu hangen arnyn nhw i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach, a chael eu parchu fel unigolion cyfartal sydd â chyfraniad i'w wneud.

Mae fy ngwaith yn cael ei dywys gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a bydda i'n ymdrechu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn yng Nghymru. Rydw i'n gweithio gyda fy nhîm i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc a'u gallu i gyrchu eu hawliau. I wneud hynny, rydyn ni'n gweithio o dan 'y pedwar D' sy'n gysylltiedig â CCUHP: Darpariaeth, Diogelwch, Dweud eich Dweud, a Deall eich Hawliau.

Mae cylch gwaith cyfreithiol Comisiynydd Plant Cymru yn ymestyn i bobl ifanc lan at 21 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal awdurdod lleol, ac yn gallu ymestyn i bobl ifanc lan at 25 oed os ydyn nhw mewn, neu wedi dychwelyd i addysg. Bu'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau plant sydd wedi gadael gofal yng nghyfnod un, yr holiadur 11-18 a'r holiadur i oedolion.

Fel tîm rydyn ni'n:

Cadw hawliau plant yn ganolog i'n gwaith, ac yn gweithio gyda holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i gyflawni'r un nod (Darpariaeth)

Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gyrchu a derbyn eu hawliau (Diogelwch)

Cynnwys arbenigedd plant a phobl ifanc wrth hysbysu a llywio ein gwaith, a gweithio gyda holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i gyflawni'r un nod (Dweud eich dweud)

Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod ganddyn nhw bencampwr annibynnol, sef y Comisiynydd Plant, a bod ganddyn nhw hawliau o dan CCUHP (Deall eich Hawliau).

Rydw i eisiau gallu adlewyrchu realiti bywydau plant yng Nghymru. Y ffordd fwyaf ystyrion i fi a'r tîm i wneud hynny yw cwrdd a siarad â phlant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw ac yn gweithio drostyn nhw. Dyna pam mae ymgynghoriad Beth nesa? wedi bod mor drylwyr ac eang ei gwmpas, gyda dau gyfnod o ymgysylltu. Roedd y cyfnod cyntaf yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb a'r ail yn defnyddio cyfres helaeth, hawdd eu defnyddio, o holiaduron i gasglu'r holl safbwyntiau roedden ni'n chwilio amdany'n nhw.

Yng nghyfnod un, bu'r tîm a minnau'n cwrdd â mwy na 1000 o blant a phobl ifanc a mwy na 200 o ofalwyr mewn oed a gweithwyr proffesiynol i gael sgysiau strwythuredig am eu bywydau pob dydd a'u pryderon, a'u barn o ran y pethau dylwn i roi blaenoriaeth iddyn nhw. Yn ystod y cyfnod hwn fe ges i'r fraint o wrando ar blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn lluo o wahanol amgylchiadau. Fe fues i'n treulio amser gyda phlant cyn-ysgol yng Nghaerffili, gofalwyr ifanc ym Mhowys, pobl ifanc oedd yn byw mewn hosteli ym Mhort Talbot ac Ynys Môn, plant anabl a'u gofalwyr mewn ysgolion a hosbis, pobl ifanc oedd yn cael triniaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl i gleifion mewnol yng Ngogledd a De Cymru, Ffermwyr Ifanc, Sgowntiaid a Geidiau a llawer o gynghorau ysgol a ieuentid.

☞ Taset ti yn swydd Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau plant yng Nghymru? Gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu clywed ac yn gallu bod yn hapus. ☞

Aelod o Fforwm Ieuencid Iau

Bu fy Llysgenhadon Gwych o'r ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn gweithdai yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru, a bu fy Llysgenhadon Cymunedol yn darparu gwybodaeth werthfawr am eu profiadau fel pobl ifanc anabl, Sipsiwn a Theithwyr, aelodau o Gymunedau Du ac Ethnig Lleiafrifol a rhai sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru. Fe fues i'n gwrandao ar bobl ifanc oedd yn gadael gofal yn holl awdurdodau lleol Cymru, a bu cannoedd o blant oedd yn mynychu Eisteddfod yr Urdd yn mynegi eu barn.

Trwy holiaduron cyfnod dau bu mwy o blant, pobl ifanc ac oedolion yn rhoi gwybod i mi beth oedd eu blaenoriaethau. Rwy'n falch bod mwy na 6000 o blant wedi cymryd rhan yn y cyfnod hwn, yn ogystal â bron 900 o oedolion. Mae'n bleser gen i adrodd hefyd fy mod i wedi gallu clywed gan lawer o blant a phobl ifanc a fyddai ddim wedi cael eu cynnwys mewn holiaduron o'r math yma fel arfer. Mae hynny'n cynnwys plant ifanc iawn (758 plant 3-7 oed) a phlant a phobl ifanc sydd ddim mewn lleoliadau ysgol oherwydd eu bod yn y ddalfa, yn yr ysbyty, neu wedi gadael yr ysgol.

Mae'n bleser gen i adrodd hefyd bod y plant a'r pobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn adlewyrchu poblogaeth Cymru o ran oedran, rhywedd, rhanbarth ac amgylchiadau sosio-economaidd. Galla i ddatgan yn ddigon hyderus, felly, bod y canlyniadau hyn yn cynrychioli barn plant a phobl ifanc yng Nghymru, a bod angen rhoi sylw manwl iddynt!

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn fy mlaenoriaethau gwaith ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac rwy'n falch o gyhoeddi crynodeb o'r rheiny ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Bydd yr wybodaeth a gefais gan blant, pobl ifanc ac oedolion yn fy helpu i alw'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill i gyfrif o ran sut maen nhw'n ymateb i'r materion a godwyd. Rwy'n gobeithio y bydd hefyd yn eu hysbrydoli nhw a holl aelodau cymdeithas i ymateb i'r blaenoriaethau a'r pryderon a godwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad. Fel Pencampwr Annibynnol i Blant yng Nghymru, rwy'n disgwyl i blant a phobl ifanc fy ngalw innau i gyfrif o ran sut rydw i wedi gwrandao arnyn nhw a pha gamau rydw i wedi'u cymryd.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phawb sy'n rhannu'r dyhead i greu Cymru lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i gyflawni'r gorau sydd o fewn eu gallu.

Diolchiadau

Hoffwn i ddiolch i'r holl blant, pobl ifanc ac oedolion a fu'n rhan o'r ymgynghoriad hwn a'r sefydliadau niferus a aeth allan o'u ffordd i hwyluso trafodaethau a hyrwyddo'r holiadur. Mae fy nhîm cyfan wedi gweithio'n ddiflino ar yr ymgynghoriad hwn, ac rwy'n ddiolchgar am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd. Hoffwn gydnabod y cyfraniad pwysig a wnaed gan Gwyther Rees o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, a fu'n arwain y gwaith o ddylunio'r holiaduron, eu dadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiadau. Gwerthfawrogir yn anferth ei arbenigedd o ran gwranddo ar blant a phobl ifanc trwy holiaduron, a'i waith cyflym a hyblyg.




Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru



Crynodeb Gweithredol

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau pob cyfnod o'r ymgynghoriad a gwybodaeth am sut bydd y canlyniadau hynny'n llywio gwaith Comisiynydd Plant Cymru yn y dyfodol. Cyhoeddir adroddiadau manylach ar ganfyddiadau amrywiol yn ystod 2016.




Cyfnod 1

Cynhaliwyd cyfnod cyntaf Beth Nesa? o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2015. Roedd yn cynnwys amrywiaeth o ymgynghoriadau â phlant, pobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys grwpiau ffocws, holiaduron, gweithgareddau creadigol (gyda phlant a phobl ifanc), trafodaethau unigol, presenoldeb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Casglwyd barn cyfanswm o fwy na 1,000 o blant a phobl ifanc a 200 o oedolion.

Roedd cyfnod yma yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar dair thema allweddol a lywiwyd gan CCUHP – darpariaeth, diogelwch, a dweud eich dweud – ac oddi mewn i bob un o'r themâu hynny ar dair agwedd wahanol ar fywydau plant – y teulu/y cartref, y gymuned/yr ardal leol, a'r ysgol.

Cafodd y deunydd a gasglwyd trwy'r ymgynghoriad ei ddadansoddi ar y cyd gan staff y Comisiynydd Plant, pobl ifanc ac ymchwilyr o Brifysgol Caerdydd. Dyma oedd y prif faterion a nodwyd:

Darpariaeth

Taset ti yn swydd Sally Holland, y Comisiynydd Plant, beth fyddet ti'n gwneud i wella bywydau plant yng Nghymru? Gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael digon o fwyd 
Aelod Fforwm Ieuencid Iau

Canfyddiadau allweddol:

- Tlodi, anghydraddoldeb ac anghenion sylfaenol (y ddau grŵp)
- Angen plant am gynhesrwydd emosiynol a chefnogaeth (plant a phobl ifanc yn bennaf)
- Rhianta, cymorth rhianta ac anghenion rhieni (gweithwyr proffesiynol yn bennaf)
- Materion addysgol yn cynnwys (i blant a phobl ifanc) ansawdd yr addysg a'r cyfleusterau addysgol ac (i oedolion) cefnogaeth addysgol a materion cysylltiedig â phrofion a straen arholiadau
- Mynediad at ofal iechyd a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn ogystal ag anghenion iechyd grwpiau penodol (i oedolion)
- Prinder canfyddedig yn y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl
- Pwysigrwydd chwarae a rhyddid a chyfleusterau hamdden yn yr ardal leol
- Pwysigrwydd mynediad at dechnoleg a'r rhyngwyd (plant a phobl ifanc yn bennaf)
- Yr iaith Gymraeg, gan gynnwys yr angen am fwy o gefnogaeth i ysgolion a gweithgareddau tu allan i'r ysgol
- Pontio o wasanaethau plant i oedolion (nodwyd gan weithwyr proffesiynol yn bennaf)

Nid oedd yr holl faterion hyn wedi'u pwysoli'n gyfartal, a gwelwyd bod y ddarpariaeth iechyd meddwl yn bwnc arbennig o amlwg.

¹ Adnabyddir sawl mater gan blant, pobl ifanc ac oedolion, ond roedd rhai gwahaniaethau o ran pwyslais rhwng y grwpiau yn amlwg, ac mae'r rhain wedi'i amlygu fel sy'n briodol

Diogelwch

Rydw i wedi bod yn yr ysgol ers pum mlynedd, a doeddwn i byth yn gwybod bod gynnon ni siarter gwrthfwlio. ”

Disgybl Ysgol Uwchradd

Canfyddiadau allweddol:

- Bwlio. Bu plant a phobl ifanc yn trafod bwlio mewn amrywiaeth o gyd-destunau, tra bod oedolion yn tueddu i ganolbwyntio ar seiberfwlio
- Diogelwch ar y rhyngwrwyd gan gynnwys, i oedolion, yr angen am fentrau gwybodaeth ac addysgu
- Mater rhieni'n taro neu'n smacio plant
- Gwrthdaro yn y teulu a thrais domestig
- Triniaeth wael a materion diogelu yn y cartref
- Risgiau a materion diogelwch y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu yn y gymuned, gan gynnwys (i blant) 'pobl eraill' a bod ar eu pen eu hunain
- Risgiau oherwydd ansawdd yr amgylchedd lleol a diogelwch ffyrdd (plant a phobl ifanc yn bennaf)
- Peryglon amgylcheddol ehangach – e.e. clogwyni, cŵn (plant a phobl ifanc)
- Materion byd-eang fel rhyfeloedd yn y newyddion (plant a phobl ifanc) ac eithafiaeth (oedolion)

Dweud eich Dweud

Taswn i'n Gomisiynydd Plant, byddwn i'n gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael hawl i roi barn ar y pethau sy'n effeithio arnyn nhw. ”

Llysgennad Gwych

Canfyddiadau allweddol:

- O fewn y teulu (codwyd gan blant): cael gwrandawriad a chael rhyddid
- Yn yr ysgol: cynghorau ysgol ac atebolrwydd (y ddau grŵp) ac a yw camau'n cael eu cymryd ar sail barn plant (plant a phobl ifanc)
- O fewn yr ardal leol/y gymdogaeth: cyfleoedd i roi barn ar faterion sy'n ymwneud â darpariaeth a phynciau lleol
- Yn y gymdeithas ehangach: Nodwyd amrywiaeth o faterion gan gynnwys (i blant a phobl ifanc) fforymau ieuentid, gwasanaethau cymdeithasol, pleidleisio a refferenda a hefyd (i oedolion) yr angen am fforwm cyfranogiad cenedlaethol, ymgysylltiad gwleidyddol a dinasyddiaeth
- Pwysigrwydd darpariaeth eiriolaeth ar gyfer grwpiau penodol o blant, gan gynnwys plant anabl (gweithwyr proffesiynol yn bennaf)

Cyfnod 2

Materion trawsbynciol

Yn ogystal â'r materion o dan y tair prif thema, nodwyd rhai materion trawsbynciol gan y ddau grŵp o ymatebwyr:

Nododd plant a phobl ifanc y canlynol:

- Pwysigrwydd 'hapusrwydd'
- Yr angen am hyrwyddo a gwella hawliau plant a phobl ifanc

Nododd yr oedolion:

- Hawliau Plant – gwella, hyrwyddo a gweithredu gan asiantaethau
- Cyllidebau, ariannu a thoriadau, gan gynnwys y goblygiadau i unigolion a theuluoedd, a hefyd o ran darparu gwasanaethau
- Anghydraddoldeb yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar draws Cymru (cyfeiriodd rhai at 'loteri cōd post')



Bu ail gyfnod Beth Nesa? yn adeiladu ar ganlyniadau Cyfnod 1. Fe'i cynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2015, gan gasglu barn (yn bennaf trwy holiaduron ar-lein) tipyn mwy na 6,000 o blant, pobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill ledled Cymru:

- **758 o blant 3-7 oed**
- **2,909 o blant 7-11 oed**
- **2,294 o bobl ifanc 11-18 oed (a hefyd rai hyd at 25 oed oedd yn gadael gofal)**
- **874 o oedolion**

Dewiswyd pynciau'r holiadur o ganlyniadau gwaith ymgynghorol Cyfnod 1. Yn yr un modd â Chyfnod 1, bu'r holiaduron yn canolbwyntio ar themâu allweddol a lywiwyd gan CCUHP – darpariaeth, diogelwch, dweud eich dweud, a deall eich hawliau – gan gasglu gwybodaeth am brofiadau plant a lefelau pryder oedolion. Bu'r holiaduron hefyd yn casglu barn yr holl ymatebwyr ynghylch blaenoriaethau gweithredu er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â llywio gwaith y Comisiynydd Plant, mae'r holiaduron hyn yn darparu gwybodaeth newydd bwysig a gwerthfawr, sydd mewn rhai achosion yn unigryw, o amrywiaeth o safbwyntiau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n ymwneud â bywydau plant yng Nghymru.

Dyma oedd y pwyntiau allweddol:**Darpariaeth**

-  **Beth sydd angen ar blant?**
- Cwtsh o'r teulu.**
- Beth wyt ti angen?**
- Byd o hapusrwydd.**
- Plenty'n yn Eisteddfod y  Ordd

Canfyddiadau Allweddol:

- Cafwyd arwyddion cymharol gadarnhaol ynghylch y ddarpariaeth hamdden yn yr ardal leol gan y grŵp oedran 7-11 oed, gan fod mwyafrif y plant yn y grŵp oed yma'n teimlo bod lleoedd iddyn nhw fynd a phethau iddyn nhw wneud. Fodd bynnag, roedd y darlun yn llai cadarnhaol yn achos plant hŷn a phobl ifanc, ac roedd boddhad o ran y mater yma'n dirywio o oed 11 ymlaen. Roedd boddhad o ran y mater yma hefyd yn is ymhlith merched a phobl ifanc o gefndir teuluol llai cefnog.
- Roedd y patrwm yn debyg wrth werthuso bywyd yn yr ysgol, gyda sylwadau llai cadarnhaol gan bobl ifanc hŷn a'r rhai o gefndir tlotach.
- Roedd barn y grŵp ifancaf o blant, y rhai 3-7 oed, yn amlygu faint roedden nhw'n gwerthfawrogi cyfleoedd i chwarae fel rhan o'u bywyd yn yr ysgol, ond ar yr un pryd bod llawer ohonyn nhw'n mwynhau gwaith ysgol a dysgu.
- Roedd yr holiadur i blant a phobl ifanc 11 oed a throsodd yn gofyn nifer o gwestiynau am lesiant emosiynol. Dywedodd y mwyafrif eu bod nhw'n aml neu bron bob amser yn teimlo'n hapus ac yn llawn egni. Serch hynny, roedd lleiafrif sylweddol yn aml neu bron bob amser yn teimlo'n bryderus (29%) ac yn drist (19%).
- Roedd plant a phobl ifanc a deimlai'n bryderus neu'n drist yn fwyaf tebygol o siarad â ffrind neu rywun gartref ond roedd athrawon a chwyselwyr ysgol hefyd yn ffynonellau pwysig posibl o gefnogaeth. Dywedodd mwy na thraean y bydden nhw'n cadw problemau iddyn nhw eu hunain, ac roedd y ganran yma'n uwch yn achos pobl ifanc hŷn a rhai o gefndir llai cefnog.
- Dim ond ychydig dros chwarter (27%) o'r plant a'r pobl ifanc 11 oed a throsodd ddywedodd eu bod nhw'n bendant yn gwybod am fannau yn eu hardal leol oedd yn darparu cefnogaeth i'r rhai oedd yn teimlo'n bryderus neu'n drist am rywbeth.
- O fewn y thema yma roedd yr oedolion yn pryderu'n arbennig ynghylch argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc. Roedd hwn yn bryder a oedd eisoes wedi dod yn amlwg iawn yn ystod cyfnod cyntaf yr ymgynghori. Roedd hefyd lefelau sylweddol o bryder ynghylch y pynciau eraill y rhoddwyd sylw iddynt, yn arbennig anghenion plant a theuluoedd sy'n byw mewn tloedi.

Diogelwch



Dwi'n meddwl dylen ni cael yr hawl i deimlo'n ddiogel ar y wê ac ar gyfryngau cymdeithasol

Disgybl Ysgol Uwchradd

- Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r coleg. Ond nid oedd rhyw 5% o blant mewn ysgolion cynradd a 9% o blant a phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel. Er mai cyfran fechan yw'r rhain, maent yn dal i gynrychioli niferoedd sylweddol. Roedd plant a phobl ifanc o gefndir llai cefnog yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- Roedd profiadau o gael eu taro, eu heithrio'n gymdeithasol a chael plant neu bobl ifanc eraill yn yr ysgol yn galw enwau arnyn nhw yn gymharol gyffredin, yn arbennig ymhlith plant cynradd. Roedd y profiadau hyn yn lleihau ar draws ystod oed yr ysgol uwchradd. Roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod wedi cael eu taro gan bobl ifanc eraill yn yr ysgol, tra bod merched yn fwy tebygol o fod wedi cael eu heithrio'n gymdeithasol. Roedd tuedd i lefelau llesiant emosiynol pobl ifanc oedd wedi cael eu bwlio fod yn is, er nad yw hynny'n golygu o reidrwydd bod y naill beth yn achosi'r llall. Cafodd bwlio ac ymddygiad negyddol plant eraill yn yr ysgol neu'r feithrinfa eu hamlygu fel problem hefyd gan blant 3-7 oed.
- Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn cytuno eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, ond fel yn yr ysgolion doedd lleiafrif sylweddol ddim yn cytuno – 13% o'r plant cynradd a 19% o'r rhai 11 oed a throsodd. Roedd merched a phlant a phobl ifanc o gefndir tlotach yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.
- Roedd dros hanner (53%) y plant cynradd weithiau'n cael bod plant a phobl ifanc eraill yn eu hardal leol yn pigo arnyn nhw, gan gynnwys 12% a ddywedodd fod hynny'n digwydd bron bob dydd. Roedd y profiadau hyn yn llai cyffredin ymhlith y grŵp oedran hŷn.
- O fewn y thema yma, gweithwyr proffesiynol oedd â'r lefelau uchaf o bryder ynghylch materion diogelu ac amddiffyn plant yn y cartref (nododd 29% hynny fel pryder o bwys), gyda bwlio'n dilyn (24%).

Dweud eich Dweud

Rydw i'n teimlo mod i'n cael gwrandawriad gartre ond nid yn yr ysgol. Yn yr ysgol maen nhw'n gwrandao amoch chi, ond dydyn nhw ddim yn eich cymryd chi o ddifri, a dydyn nhw ddim wir yn gwneud dim am y peth. 99

Gofalwr Ifanc

- Roedd mwyafrif y plant 3-7 oed yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol neu'r feithrinfa yn gwrandao arnyn nhw.
- Ymhlith y grwpiau oed hŷn, dim ond lleiafrif o'r plant a'r bobl ifanc (30% o'r grŵp oed cynradd a 25% o'r grŵp oed hŷn) ddywedodd eu bod yn aml yn cael gofyn eu barn yn yr ysgol, a dim ond chwarter oedd yn teimlo bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud yn yr ysgol.
- Roedd profiadau plant a phobl ifanc o gyfranogiad wrth i benderfyniadau gael eu gwneud yn yr ardal leol yn llai cadarnhaol, gyda lleiafrif yn unig yn dweud bod rhywrai wedi ymgynghori â nhw ynghylch penderfyniadau, neu'n meddwl bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr.
- Gofynnwyd i'r grŵp oedran 11-18 hefyd beth oedd eu barn am hawliau a chyfranogiad pobl ifanc yn gyffredinol. Roedd bron hanner (45%) o'r bobl ifanc yn meddwl bod oedolion yn gyffredinol yn gwrandao ar farn pobl ifanc neu bod y farn honno'n gwneud gwahaniaeth i beth sy'n digwydd yng Nghymru.
- Yn gyffredinol, roedd teimladau pobl ifanc ynghylch cyfranogiad yn yr ysgol, yr ardal leol ac yng Nghymru yn gyffredinol yn mynd yn llai cadarnhaol wrth iddyn nhw symud i fyny rhwng 11 ac 18.

— O fewn y thema hon, gweithwyr proffesiynol oedd yn pryderu fwyaf am gyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau cenedlaethol (roedd 21% yn nodi hyn fel pryder mawr), gyda phenderfyniadau yn yr ardal leol yn dilyn (17%).

Deall eich Hawliau

Pe bae ti'n Sally, beth fyddet ti'n ei wneud? Gwneud yn siwr bod plant yn gwybod am eu hawliau. 99

Disgybl Ysgol Gynradd

- Roedd ychydig dros hanner y plant a'r bobl ifanc 7 oed a throsodd yn dweud eu bod nhw'n gwybod am hawliau plant. Roedd rhyw draean yn gwybod am eu hawliau o dan CCUHP.
- Roedd plant oed cynradd wedi cael mwy o brofiad o ddysgu am hawliau na phobl ifanc hŷn. Roedd gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ddiddordeb mewn dysgu mwy am hawliau plant.
- Roedd tua phumed ran (21%) o'r gweithwyr proffesiynol yn nodi lefel gwybodaeth plant am eu hawliau fel pryder mawr ac roedd 29% arall yn eu nodi fel '3' ar raddfa bryder o sero i bedwar.

Blaenoriaethau

Holwyd pob grŵp o ymatebwyr eu barn ar flaenoriaethau, ar sail cyfres o faterion a nodwyd trwy'r ymgynghoriadau yng nghyfnod cyntaf Beth Nesa?. Rhoddwyd rhestrau byrrach o faterion i'r plant iau, gan gadw eu hoed a'u gallu i ddeall mewn cof, yn ogystal â pherthnasedd materion i'w bywydau. Bu'r holiadur oedolion yn holi eu barn ynghylch blaenoriaethau i'r Comisiynydd Plant. Fodd bynnag, roedd y tri holiadur plant a phobl ifanc yn holi ynghylch blaenoriaethau i wella bywydau plant yn gyffredinol, gan nad oedd rhagdybiaeth y byddent yn gyfarwydd â chylch gorchwyl a rôl y Comisiynydd. Dylid cadw hyn mewn cof wrth gymharu barn y plant a'r bobl ifanc â barn yr oedolion.

— Rhoddwyd rhestr o saith blaenoriaeth i'r plant 3-7 oed, i ddewis dwy ohonynt. Yn y rhestr hon 'mwy o leoedd i chwarae' oedd y flaenoriaeth uchaf – cafodd ei dewis gan bron hanner y plant – gan adlewyrchu pwysigrwydd chwarae i'r grŵp oedran yma. Wedyn roedd barn ranedig o ran y pedair blaenoriaeth nesaf mwyaf cyffredin, sef tlodi, diogelwch, bwlio a llesiant emosynol, y cafodd pob un ohonynt ei dewis yn un o ddwy flaenoriaeth ychydig dros chwarter y plant.

— Cafodd y plant 7-11 oed restr o 12 blaenoriaeth i ddewis hyd at bump ohonynt Dewisodd dros hanner y plant (55%) stopio bwlio fel blaenoriaeth. Y blaenoriaethau uchaf nesaf i'r grŵp oedran yma oedd helpu plant a theludoedd sydd mewn tlodi (47%) a gwneud ardaloedd lleol yn fwy diogel i blant (41%). Nid oedd y blaenoriaethau'n amrywio'n fawr yn ôl oed, rhywedd na rhanbarth ymhlith y grŵp oedran yma.

— Cafodd plant a phobl ifanc 11–18 restr rywfaint yn hwy o 14 blaenoriaeth (yr ychwanegiadau oedd gwella gwersi ABC a chefnogaeth wrth bontio i oedolaeth), a gallent ddewis hyd at bump ohonynt. Eto, y flaenoriaeth fwyaf cyffredin (53%) oedd taclo bwlio. Dewiswyd tri mater arall gan dros 40% o'r bobl ifanc – amddiffyn plant rhag trais a cham-drin yn y cartref, cyfleusterau yn yr ardal leol a help i blant a theludoedd mewn tlodi. Felly roedd nodweddion tebyg a gwahaniaethau ym mhrif flaenoriaethau'r grŵp oedran yma o'i gymharu â'r plant cynradd. Eto, nid oedd fawr ddim tystiolaeth o wahaniaeth ym mlaenoriaethau gwahanol is-grwpiau o bobl ifanc ar sail oedran, rhywedd, rhanbarth na chyfoeth.

— Rhoddwyd rhestr o 18 mater i'r oedolion, a gallent ddewis hyd at bump ohonynt. Roedd cefnogaeth i wella iechyd meddwl a llesiant yn brif flaenoriaeth amlwg yn yr holiadur hwn – fe'i dewiswyd gan 82% o'r gweithwyr proffesiynol a 62% o'r rhieni. Roedd tuedd i'r blaenoriaethau eraill amrywio rywfaint rhwng gweithwyr proffesiynol a rhieni. Dewisodd y gweithwyr proffesiynol ddiogelu plant gartref, tlodi a chymorth rhianta yn dair blaenoriaeth nesaf yn eu tro. Ar y llaw arall, dewisodd y rhieni wella cyfleusterau hamdden lleol yn ail flaenoriaeth, gyda thaclo bwlio'n dilyn, ac yna tlodi. Ymddangosai dull rhieni o raddio blaenoriaethau rywfaint yn nes at ddewisiadau'r plant a'r bobl ifanc nag eiddo'r gweithwyr proffesiynol.



Cyd-destun

Lluniwyd Beth Nesa? i gasglu barn a phrofiadau plant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn llywio blaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru (CPC) yn y dyfodol, ochr yn ochr â chasglu tystiolaeth newydd ynghylch bywydau ein plant a'n pobl ifanc.



Cefndir a nodau

Bu dros 1000 o blant a phobl ifanc a 200 o oedolion, o bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn cymryd rhan, a chyhoeddir adroddiad ar y cyfnod hwn yn ddiweddarach yn 2016.

Roedd ail gyfnod y prosiect yn cynnwys pedwar holiadur. Penderfynwyd ar gynnwys yr holiaduron yn bennaf gan gyfnod cyntaf y prosiect, a oedd wedi casglu barn a syniadau trwy amrywiaeth o ddulliau ymgynghori, a hynny gan amrywiaeth eang o blant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod gwanwyn a haf 2015. Roedd yr holiaduron wedi'u bwriadu ar gyfer:

- **Plant 3-7 oed (holiadur byr)**
- **Plant 7-11 oed (y grŵp oedran cynradd)**
- **Pobl ifanc 11-18 oed (ysgol uwchradd ac addysg ôl-orfodol)**
- **Gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill**

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei drefnu o gwmpas pedair thema sy'n gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

1. Darpariaeth:

Oes gan blant yng Nghymru y pethau sydd eu hangen arnynt i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel? Beth dylai Comisiynydd Plant Cymru (CPC) ei flaenoriaethu o ran dylanwadu ar welliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc?

2. Diogelwch:

Ydy plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel? Beth dylai CPC ei flaenoriaethu o ran dylanwadu ar welliannau i'r amddiffyniad a roddir i blant a phobl ifanc?

3. Dweud eich Dweud:

Ydy plant a phobl ifanc yn cael dewisiadau a chyfle i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt? Beth dylai CPC flaenoriaethu o ran cyfranogiad?

4. Deall eich Hawliau:

Ydy plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau? Sut dylai'r Comisiynydd Plant eu cynnwys yn ei gwaith?

O fewn y meysydd thematig hyn, y pynciau a ddaeth i'r amlwg o'r cyfnod cyntaf oedd:

Darpariaeth

Chwarae a hamdden
Gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol
Llesiant emosiynol a iechyd meddwl
Tlodi ac anghydraddoldeb
Pontio i oedolaeth

Diogelwch

Bwlio ac aflonyddu
Ysgolion diogel
Cymunedau diogel
Diogelu
Cymorth i deuluoedd

Dweud eich Dweud

Yn y feithrinfa/yr ysgol/y coleg
Yn yr ardal leol
Yng Nghymru

Deall eich Hawliau

Dysgu a gwybodaeth am hawliau
Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y
Comisiynydd

Tabl 1: Themâu a phynciau a nodwyd ar gyfer holiaduron Cyfnod 2

¹ Gan gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed sydd wedi bod yn derbyn gofal, yn unol â chylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru.

Roedd dau nod i'r gwahanol holiaduron yng nghyfnod 2:

1. Dysgu mwy am bob un o'r pynciau hyn o safbwynt plant, pobl ifanc ac oedolion yng Ngymru.
2. Casglu barn ynghylch sut gallai'r pynciau hyn gael eu blaenoriaethu fel rhan o brif nod CPC, er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn hawliau a llesiant plant a phobl ifanc.

Yr holiaduron

Isod ceir trosolwg byr o'r gwahanol holiaduron:

Plant 3–7 oed (holiadur byr)

Lluniwyd yr holiadur hwn i fod mor fyr a syml â phosib ar gyfer plant 3-7 oed. Roedd yr holiadur yn cynnwys deg cwestiwn oedd yn cwmpasu is-set bychan o'r pynciau oedd yn ymddangos yn berthnasol i'r grŵp oedran yma, gan gynnwys chwarae, teimlo eu bod yn cael gwrandawriad yn y feithrinfa, teimlo'n ddiogel, ceisio cefnogaeth a chyfres fer o opsiynau i'w blaenoriaethu. Casglwyd peth data demograffig sylfaenol yn ogystal. Roedd yr holiadur ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal ag ar bapur ar gais. Lluniwyd gweithgaredd amser cylch i gasglu ymatebion i'r un cwestiynau mewn modd rhyngweithiol, ac fe'i defnyddiwyd mewn nifer o leoliadau cyn-Ysgol.

Plant 7-11 oed (y grŵp ysgol gynradd)

Roedd yr holiadur hwn yn cynnwys set fwy helaeth o gwestiynau oedd yn cwmpasu mwyafrif y pynciau a restrwyd yn Tabl 1. Yr eithriadau oedd pontio i oedolaeth a gwersi ABCh, gan nad ymddangosai'n berthnasol holi'r grŵp oedran yma yn eu cylch. Holwyd y plant ynghylch eu profiadau o bob pwnc; a hefyd

gofynnwyd iddyn nhw flaenoriaethu rhestr o 12 opsiwn. Eto, casglwyd peth gwybodaeth ddemograffig. Roedd yr holiadur ar gael ar-lein ac ar bapur, yn Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain a fersiwn hawdd ei darllen gyda symbolau.

Pobl ifanc 11-18 oed (ysgol uwchradd ac addysg ôl-orfodol)

Roedd yr holiadur hwn yn cwmpasu'r holl bynciau a nodwyd. Yn ogystal â gwybodaeth ddemograffig, roedd y fersiwn hon yn cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol ynghylch amgylchiadau economaidd teuluoedd. Eto, roedd yr holiadur ar gael ar-lein ac ar bapur yn Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain a fersiwn hawdd ei darllen gyda symbolau.

Gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill

Roedd yr holiadur hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ond roedd hefyd yn agored i rieni ac oedolion eraill. Roedd yn cynnwys dwy brif ran – cyfres o gwestiynau am lefelau pryder yr ymatebwyr ynghylch pob un o'r pynciau yn Tabl 1 – ac yna rhestr debyg i'r ymatebwyr ei blaenoriaethu. Roedd hefyd rai cwestiynau eraill am anghenion is-grwpiau penodol o bobl ifanc a barn gyffredinol. Casglwyd gwybodaeth am leoliad daearyddol yr ymatebwyr, a hefyd am y math o asiantaeth os oedden nhw'n cwblhau'r holiadur fel gweithiwr proffesiynol. Roedd yr holiadur ar gael ar-lein ac ar bapur yn Gymraeg, Saesneg a Iaith Arwyddion Prydain.

Canlyniadau'r holiaduron

Ar ôl glanhau'r data, roedd cyfanswm nifer yr ymatebion yn cynnwys bron 6,000 o blant ac 800 o oedolion, fel y dangosir yn Tabl 2:

² Nodi a dileu achosion lle roedd ymatebwyr wedi rhoi'r gorau i ateb yr holiadur yn gynnar, neu wedi gadael y rhan fwyaf yn wag.

HOLIADUR	NIFER YR YMATEBION
Plant 3 oed a throsodd	758
Plant 7-11 oed	2,909
Plant 11-18 oed	2,294
Gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill	874

Tabl 2: Nifer yr ymatebion i bob holiadur

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno canfyddiadau allweddol y pedwar holiadur, wedi'u trefnu yn ôl y themâu a'r pynciau a nodwyd uchod. Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd wedi'u seilio ar ddadansoddiad cynhwysfawr o bob un o'r holiaduron. Pwysolwyd yr ystadegau ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod mor gynrychioladol â phosibl o'r boblogaeth blant, ar sail nodweddion hysbys. Mae'r holl ganrannau wedi cael eu crynhoi i'r pwynt canran agosaf, ac felly mae'n bosibl na fydd cyfanswm canrannau rhai cwestiynau yn creu 100% union. Lle trafodir gwahaniaethau rhwng is-grwpiau (e.e. benywod a gwrywod), cafwyd bod y rhain yn ystadegol arwyddocaol drwy ddefnyddio profion ystadegol safonol. Bydd rhagor o wybodaeth am yr holl faterion hyn a chanfyddiadau llawn pob un o'r holiaduron yn cael eu darparu mewn adroddiadau ar wahân ar gyfer pob holiadur, yn ddiweddarach yn 2016, yn www.complantcymru.org.uk

Mae strwythur gweddill yr adroddiad yn cynnwys:

- **Pedair adran sy'n cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer pedair thema unigol diogelwch, darpariaeth, dweud eich dweud a deall eich hawliau;**
- **Adran yn cyflwyno blaenoriaethau'r ymatebwyr ym mhob un o'r holiaduron;**
- **Adran derfynol yn crynhoi'r prif bwyntiau.**

Yn ogystal â llywio sut mae'r Comisiynydd yn meddwl am flaenoriaethau strategol yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth newydd bwysig ynghylch bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae holiaduron sy'n ceisio barn plant oed cynradd ar lefel genedlaethol yng Nghymru yn gymharol anghyffredin, ac yn fwy fyth felly holiaduron sy'n cynnwys plant mor ifanc â thair oed. Yng nghyswllt y grŵp oedran hŷn o bobl ifanc, 11 oed a throsodd, mae data holiaduron hunan-adrodd eisoes yn bodoli ar rai pynciau – yn arbennig o'r gyfres o holiaduron Ymddygiad Iechyd Plant oed Ysgol (HBSC).

Fodd bynnag, mae hefyd fylchau sylweddol yn y dystiolaeth gyfredol a gasglwyd gan bobl ifanc yn y grŵp oedran yma, fel yr amlygwyd yn nhrydydd rhifyn Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn hwyr yn 2015. Mae'r holiaduron a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â rhai o'r bylchau a nodwyd, gan gynnwys teimladau plant am eu hardal leol a'u cyfleoedd i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Agwedd bwysig ar ymchwil barhaus i fywydau plant a phobl ifanc yw datblygu gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar lesiant plant. Y gobaith, felly, yw y bydd y canfyddiadau o werth i sefydliadau eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo hawliau a lesiant plant yng Nghymru.




³ Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151211-children-young-people-wellbeing-monitor-2015-en.pdf>

Darpariaeth

“ Beth allai wneud bywydau
plant yn well yng Nghymru?
Mwy o gariad, mwy o
bobl i droi atyn nhw, mwy
o ysbrydoliaeth, mwy o
hapusrwydd a rhyddid ”

Llysgennad Gwych




Yn yr adran hon rydyn ni'n edrych ar y canfyddiadau allweddol o ran barn plant a phobl ifanc am y canlynol:

- darpariaeth chwarae a hamdden
- yr ysgol
- llesiant emosiynol, iechyd meddwl a cheisio help

Rydym hefyd yn crynhoi ymatebion gweithwyr proffesiynol i gwestiynau ynghylch lefelau eu pryder o ran y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd.

Chwarae a hamdden


Gofynnwyd i blant yn y grŵp oedran ifancaf ddewis eu tri hoff le i chwarae o restr o wyth lleoliad. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 1. Dewisodd mwyafrif y plant (61%) byllau nofio fel un o'u hoff leoedd i chwarae. Mae'r ddau leoliad nesaf a ddewiswyd amlaf yn gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol.



Ffigur 1: Hoff leoedd i chwarae (3-7)

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r plant 7-11 oed ynghylch cyfleusterau yn eu hardal leol. Ymddangosai fod gan fwyafrif mawr y plant yn y grŵp oedran yma farn gadarnhaol am y mater yma, fel y dangosir yn Ffigur 2.

Gofynnwyd cwestiwn â'r un geiriad i blant a phobl ifanc 11 oed a throsodd, ond gyda mwy o opsiynau o ran ymateb . Mae Ffigur 2 hefyd yn dangos y canrannau sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â phob gosodiad. Ymddengys bod y grŵp oedran yma yn llawer llai cadarnhaol am gyfleusterau lleol, gyda mwy na thraean yn teimlo bod dim byd iddyn nhw wneud yn eu hardal leol.



Ffigur 2: Barn ynghylch cyfleusterau lleol

⁴ Gan gynnwys opsiynau ar gyfer 'Anghytuno'n gryf' a 'Cytuno'n gryf'

⁵ Mae'r gwahaniaeth a nodwyd yng ngeiriad cwestiynau'r ddau grŵp oed yn golygu nad oes modd cymharu'r ffigurau mewn gwirionedd

Lleoliad Ysgol


Gofynnwyd dau gwestiwn testun agored i'r plant ifancaf yn yr holiadur ynghylch pethau roedden nhw'n eu hoffi neu ddim yn eu hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa. Dangosir rhai o'r themâu mwyaf cyffredin yn ymatebion y plant, yn nhrefn amllder disgynnol, yn Tabl 3.

Hoffi	Ddim yn hoffi
Chwarae (gan gynnwys amser egwyl ac amser chwarae) Ffrindiau Dysgu a gweithio'n gyffredinol Pynciau/gwersi penodol – yn fwyaf aml gweithgareddau creadigol, darllen, ysgrifennu a mathemateg Athrawon Bwyd	Ymddygiad plant eraill, gan gynnwys bwlio Gwersi a gwaith Pynciau/gwersi penodol – yn fwyaf aml ysgrifennu a mathemateg Cael athrawon yn dweud y drefn wrthyn nhw

Tabl 3: Themâu cyffredin yn ymatebion plant o ran y pethau roedden nhw'n eu hoffi neu'r pethau doedden nhw ddim yn eu hoffi am yr ysgol neu'r feithrinfa

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc yn y ddau grŵp oed hŷn ymateb i'r gosodiad 'Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol'. Roedd dros dri chwarter (78%) y plant yn yr holiadur 7-11 oed yn cytuno â'r gosodiad hwn, a dim ond 8% oedd yn anghytuno. Ymhlith y grŵp oed 11-18+ roedd canran o 66% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ac roedd 14% o'r bobl ifanc yn anghytuno. Mae'r patrwm hwn, lle mae lefel mwynhad yn yr ysgol yn lleihau gydag oed, yn ganfyddiad cyffredin mewn holiaduron o blant a phobl ifanc.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc yn yr holiadur 11-18+ hefyd a oedden nhw'n mwynhau gwersi am faterion personol, cymdeithasol ac emosiynol (ABCh) yn yr ysgol. Roedd tua hanner y bobl ifanc yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ac roedd tua phumed ran yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.




Ffigur 3: Ymatebion i 'Rydw i'n mwynhau gwersi am faterion personol, cymdeithasol ac emosiynol' (11-18)

Llesiant emosiynol a iechyd meddwl

ee Wyt ti'n cael y gwasanaethau/ gweithgareddau sydd eu hangen? Na – gwasanaethau iechyd meddwl, mae'n cymryd amser hir os oes rhywbeth ar gael hyd yn oed, dydyn nhw ddim yn gwrando i weld beth yw'r broblem ac yn meddwl bod tabledi'n gallu ateb popeth. Dylen nhw wrando gynta cyn rhoi tabledi i chi. 99

Person Ifanc o Fforwm Tai

Gofynnwyd i'r plant yn y grŵp oedran ifancaf pwy oedd yn eu helpu pan fydden nhw'n teimlo'n drist neu'n bryderus. Dewisodd dros hanner y plant eu mam, a'r bobl nesaf fwyaf cyffredin oedd eu tad ac yna athro (Ffigur 4). Petai'r plant yn ateb 'rhywun arall' roedd cwestiwn testun agored lle gallen nhw ddweud am bwy roedden nhw'n meddwl. Y ffynhonnell arall o gefnogaeth y soniwyd amdani amlaf oedd ffrindiau. Soniodd rhai plant hefyd am frodyr a chwiorydd a theulu estynedig.




Ffigur 4: Pan fyddi di'n teimlo'n drist neu'n bryderus, pwy sy'n dy helpu di? (3-7)

Gofynnwyd cyfres o bum cwestiwn i'r plant a'r bobl ifanc yn yr holiadur 11-18+ ynghylch pa mor aml roedden nhw wedi profi tri theimlad cadarnhaol a dau deimlad negyddol yn ystod y pedair wythnos diwethaf (Ffigur 5).

— Roedd mwyafrif o blant a phobl ifanc wedi profi'r tri theimlad cadarnhaol (hapus, wedi ymlacio a llawn egni) yn aml neu bron bob amser yn ystod y pedair wythnos diwethaf.


— Yng nghyswllt y ddau deimlad negyddol, dywedodd bron pumed ran (19%) o blant a phobl ifanc eu bod wedi teimlo'n drist yn aml neu bron bob amser yn ystod y pedair wythnos diwethaf, a dywedodd dros chwarter (29%) eu bod yn aml neu bron bob amser wedi teimlo'n bryderus.



Ffigur 5: Trosolwg – amllder teimladau cadarnhaol a negyddol yn ystod y pedair wythnos diwethaf (11-18)

Yna gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc at bwy bydden nhw'n troi am help petaen nhw'n teimlo'n drist neu'n bryderus, a rhoddwyd cyfres o opsiynau iddyn nhw. Roedd modd iddyn nhw ddewis faint bynnag o opsiynau oedd yn berthnasol. Dywedodd bron dau o bob pump

(38%) yn y grŵp oedran yma y bydden nhw'n cadw'r peth iddyn nhw eu hunain. Y ffynonellau cymorth tebygol mwyaf cyffredin oedd ffrindiau a rhywun gartref, a chafodd y ddau opsiwn yna eu dewis gan tua hanner y bobl ifanc (Ffigur 6).




Ffigur 6: Taset ti'n teimlo'n bryderus neu'n drist am rywbeth ac eisiau siarad amdano fe, beth fyddet ti'n ei wneud? (11-18)

ee Dychmyga dy fod di yn lle Sally, beth fyddet ti'n ei wneud i wella pethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru?
Mae sut mae iechyd rhyw yn cael ei ddysgu mewn ysgolion bob amser yn negyddol, e.e. sôn am gost beichiogrwydd yn yr ardegau. Rydyn ni'n clywed gormod o stwff negyddol. Mae ABCh yn troi'n wers ar feichiogrwydd yn yr ardegau **99**
 Aelod Fforwm Ieuenctid

Yn olaf ar y testun hwn, gofynnwyd i'r blant a phobl ifanc oedden nhw'n gwybod am 'fannau neu wasanaethau yn eich ardal chi sy'n helpu pobl ifanc os byddan nhw'n bryderus neu'n drist am rywbeth'. Dywedodd ychydig dros chwarter (27%) y pobl ifanc eu bod nhw, tra dywedodd 42% eu bod nhw ddim, a doedd y gweddill ddim yn siŵr (Ffigur 7).

Wyt ti'n gwybod am lefydd neu wasanaethau yn dy ardal di sy'n helpu pobl ifanc os byddan nhw'n pryderu neu'n drist am rywbeth?

■ Nac ydw ■ Ddim yn siŵr ■ Ydw




Ffigur 7: Gwybodaeth am wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer materion emosiynol (11-18)

Lefelau pryder gweithwyr proffesiynol ynghylch amrywiol agweddau o ddarpariaeth

☞ Mae angen mwy o weithio ar y cyd rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant. Rhif yn unig yw 18 mewn bywyd person ifanc, mae eu hanghenion yr un fath.
Gweithiwr Trawsnewidiad Uwch **”**

Yn holiadur yr oedolion, gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio lefel eu pryder ynghylch darpariaeth amrywiol wasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dewiswyd y gwasanaethau hyn oherwydd iddynt gael eu codi'n aml yn ystod cyfnod 1 yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion ar raddfa bum pwynt, lle roedd sero (0) yn cynrychioli 'Dim pryder o gwbl' a phedwar (4) yn cynrychioli 'Pryder mawr'. Dengys Ffigur 8 yr ymatebion a gafwyd gan weithwyr proffesiynol yn unig a gwblhaodd yr holiadur.

Argaeledd gwasanaethau llesiant a iechyd meddwl oedd y testun a achosodd y pryder mwyaf ymhlith gweithwyr proffesiynol, gyda rhyw ddau draean yn nodi bod hwn yn bryder mawr. Mae hyn yn cyfateb i'r pwyslais amlwg ar y mater hwn yn ystod ymgynghoriadau cyfnod un. Mynegwyd y lefel nesaf uchaf o bryder ynghylch plant a theuluoedd mewn tlodi, oedd yn bryder mawr i bron hanner (47%) y gweithwyr proffesiynol.



Ffigur 8: Lefelau pryder ynghylch amrywiol agweddau o ddarpariaeth (gweithwyr proffesiynol yn unig)

Diogelwch

“Dyw plant ddim i gael
eu taro am unrhyw reswm.”

Disgybl Ysgol Uwchradd



Yn yr Ysgol

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc 7 oed a throsodd oedden nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol neu'r coleg:


- Cytunodd 84% o'r plant cynradd eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dim ond un o bob 20 (5%) oedd yn anghytuno.
- Mewn cymhariaeth, roedd 76% o blant a phobl ifanc 11 oed a throsodd yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a 9% yn anghytuno.

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r plant a'r bobl ifanc hefyd ynghylch profiadau o'r canlynol yn ystod y mis diwethaf yn yr ysgol:

- cael eu taro gan blant neu bobl ifanc eraill
- cael eu gadael allan gan blant neu bobl ifanc eraill
- cael eu galw'n enwau cas neu gael pobl yn gwneud hwyl am eu pennau

Ni ddefnyddiwyd y gair 'bwlio' yn benodol yn y cwestiwn, ond fe'i defnyddir yma i fod yn gryno. Dangosir y canrannau oedd wedi profi pob un o'r mathau hyn o ymddygiad o leiaf unwaith yn ystod y mis diwethaf yn Ffigur 9.

Gwelir bob pob un o'r tri phrofiad yma'n fwy cyffredin yn y grŵp oedran cynradd na'r grŵp oedran hŷn. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos cael eu taro gan bobl ifanc eraill, oedd dros ddwywaith mor gyffredin yn y grŵp oedran iau ag yn y grŵp oedran hŷn.



Ffigur 9: Profiadau diweddar (yn ystod y mis diwethaf) o fwlio yn yr ysgol neu'r coleg

Fel y gwelwyd mewn ymchwil arall ar lesiant plant, roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng profiadau diweddar plant o gael eu bwlio a'u llesiant emosiynol. Er enghraifft, ymhlith plant a phobl ifanc 11-18+ oed:

- Dywedodd 26% o'r rhai oedd wedi cael eu taro gan blant a phobl ifanc eraill yn yr ysgol yn ystod y mis diwethaf eu bod yn aml neu bron bob amser yn teimlo'n drist, o gymharu â 16% oedd ddim.
- Roedd 28% o'r rhai oedd wedi cael eu gadael allan gan blant a phobl ifanc eraill yn y dosbarth yn teimlo'n drist yn aml neu bron bob amser, o gymharu â 13% oedd ddim.
- Roedd 27% o'r rhai oedd wedi cael eu galw'n enwau cas, neu wedi cael eraill yn chwertthin am eu pennau yn teimlo'n drist yn aml neu bron bob amser o gymharu â 12% oedd ddim.

Fodd bynnag, ni ellir dweud ar sail y cysylltiadau hyn a oes dolen achosol rhwng bwlio a llesiant emosiynol – byddai angen ymchwil fanylach i ddarganfod hynny.

Yn yr ardal leol

Cytunodd dros dri-phumed (61%) o'r plant oed ysgol gynradd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, ac roedd 13% yn anghytuno. Roedd cyfran rywfaint yn llai (57%) o'r plant a'r bobl ifanc 11 oed a throsodd yn cytuno â'r gosodiad hwn, tra bod cyfran rywfaint yn fwy (19%) yn anghytuno.


Holwyd plant a phobl ifanc hefyd am eu profiadau o blant eraill yn eu niweidio neu'n pigo arnyn nhw yn eu hardal leol. Dywedodd ychydig dros hanner (53%) y plant 7-11 oed fod hyn wedi digwydd iddyn nhw o leiaf unwaith, gan gynnwys 12% a ddywedodd ei fod yn digwydd bron bob dydd. Dywedodd cyfran is o'r plant a'r bobl ifanc 11 oed a throsodd (34%) eu bod yn cael y profiadau hyn, a dim ond tua un o bob 20 (5%) ddywedodd eu bod yn cael eu niweidio neu bod rhywun yn pigo arnyn nhw bron bob dydd. Er bod cyfran y plant a'r bobl ifanc yn y ddau grŵp oedran a ddywedodd eu bod yn cael eu niweidio neu bod rhywun yn pigo arnyn nhw'n gyson yn gymharol fach, petai'r ystadegau yma'n cael eu dyblygu ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru, byddai'n nifer sylweddol o blant.

Lefelau pryder gweithwyr proffesiynol ynghylch amrywiol agweddau ar amddiffyniad

Helpu pobl ifanc i fod yn ddinasyddion digidol diogel a chyfrifol
Gweithiwr Cymdeithasol

Dengys Ffigur 8 yr ymatebion ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn unig a gwblhaodd yr holiadur. Yma gwelwyd y lefelau uchaf o bryder ynghylch materion diogelu plant neu amddiffyn plant yn y cartref, a raddiwyd fel '3' neu '4' gan 60% o'r gweithwyr proffesiynol. Bwlio oedd y mater lle gwelwyd y lefelau ail uchaf o bryder.

Fel yn achos 'darpariaeth', gofynnwyd i'r ymatebwyr yn yr holiadur oedolion raddio lefel eu pryder ynghylch sawl mater gwahanol oedd yn ymwneud â thema 'diogelwch'.




Ffigur 10: Lefelau pryder gweithwyr proffesiynol ynghylch amrywiol agweddau ar amddiffyniad

Dweud eich Dweud

ee Tasen i yn lle Sally Holland
byddwn i'n...


Gwneud yn siŵr bod plant
yn gwybod sut i gael eu
clywed ac yn teimlo'n
hyderus yn yr ysgol 99

Disgybl Ysgol Uwchradd



Yn y feithrinfa/yr ysgol/y coleg

Gofynnwyd cwestiwn i'r grŵp oedran ifancaf o blant ynghylch a oedd oedolion yn gwrandio arnyn nhw yn yr ysgol neu'r feithrinfa. Dangosir yr ymatebion yn Ffigur 11. Atebodd dros dri chwarter y plant y cwestiwn yma'n gadarnhaol, a dywedodd 14% arall 'weithiau'. Dywedodd tua un o bob 25 o blant nad oedd oedolion yn gwrandio arnyn nhw.




Ffigur 11: Ydy oedolion yn gwrandio arnat ti yn yr ysgol neu'r feithrinfa? (3-7)

Gofynnwyd yr un gyfres o dri chwestiwn ynghylch gofyn eu barn yn yr ysgol i blant a phobl ifanc yn y ddau grŵp oedran hŷn. Crynhoir canlyniadau'r ddau grŵp yn Ffigur 12.

Dyweddodd tua 30% o'r plant yn y grŵp oedran 7-11 eu bod nhw'n cael gofyn eu barn yn eitha aml neu'n aml iawn yn yr ysgol, ac roedd y ffigur ychydig yn is yn achos y grŵp oedran 11-18+. Os rhown o'r neilltu y plant a'r bobl ifanc hynny

a ddywedodd nad oeddent erioed wedi cael cais i fynegi barn, dywedodd llai na hanner o'r ddau grŵp oedran eu bod fel arfer yn clywed canlyniad ceisio eu barn. Roedd y ganran yn uwch yn y grŵp oedran iau. Yn yr un modd, dim ond lleiafrif o'r plant oedd yn meddwl bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr yn yr ysgol, ac eto roedd y grŵp oedran iau ychydig yn fwy cadarnhaol am y mater yma.




Ffigur 12: Barn ynghylch cyfranogiad yn yr ysgol

Yn yr ardal leol

Gofynnwyd cyfres debyg o gwestiynau i blant a phobl ifanc yn y ddau grŵp oedran hŷn ynghylch cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn eu hardal leol. Gwelir y canlyniadau yn Ffigur 13.

O gymharu â gofyn eu barn yn yr ysgol, roedd y canrannau i gyd yn is yma, ac eto roedd gwahaniaeth amlwg ym marn y ddau grŵp oedran, gyda phlant 7-11 oed yn ymateb yn fwy cadarnhaol na phobl ifanc 11-18+.



Ffigur 13: Barn ynghylch cyfranogiad yn yr ardal leol


Yn genedlaethol

Gofynnwyd i'r grŵp oedran 11-18+ hefyd beth oedd eu barn am hawliau a chyfranogiad yng Nghymru yn gyffredinol.

— Roedd tua 45% o'r plant a'r bobl ifanc yn cytuno bod oedolion yn gyffredinol yn parchu hawliau plant; doedd tua thraean (34%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno; ac roedd un o bob pum person ifanc (21%) yn anghytuno.

— Roedd plant a phobl ifanc rywfaint yn llai cadarnhaol ynghylch a yw oedolion yn gwrando ar farn pobl ifanc, gyda 31% yn cytuno, a 29% yn anghytuno.

— Cytunodd ychydig dros 30% o'r plant a'r bobl ifanc fod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond roedd canran ychydig yn uwch (34%) yn anghytuno.




Ffigur 14: Trosolwg – barn ynghylch hawliau a chyfranogiad yng Nghymru

Lefelau pryder gweithwyr proffesiynol ynghylch materion cyfranogiad

Mae angen llwyfan cenedlaethol ar blant a phobl ifanc yn lle'r Ddraig Ffynsi, ond mae angen i bobl ifanc o'u cymunedau feithrin hyder mewn fforymau lleol (mewn ysgolion ac yn yr ardal) cyn gallu cymryd rhan yn fforymau'r awdurdod lleol ac yna ar lefel genedlaethol. **Gweithiwr Ieuencid**

Fel yn achos y themâu eraill, holwyd yr oedolion ynghylch eu lefelau pryder o ran amrywiol agweddau ar gyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd y lefelau uchaf o bryder yn ymwneud â chyfraniad mewn penderfyniadau a wneir yn genedlaethol (gyda mwy na phumed ran yn dweud bod hynny'n bryder mawr iddyn nhw). O'r tair agwedd ar gyfranogiad oedd yn weddill, roedd gan weithwyr proffesiynol lefelau uwch o bryder ynghylch cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a wneir yn eu hardal leol na gartref neu yn yr ysgol.



Ffigur 15: Lefelau pryder ynghylch amrywiol agweddau ar gyfranogiad (gweithwyr proffesiynol yn unig)

Deall eich Hawliau

ee **Taswn i'n Sally Holland,
baswn i'n gwneud yn siwr
bod oedolion yn gwybod
am hawliau plant 99**

Disgybl Ysgol Gynradd




Dysgu a gwybodaeth plant a phobl ifanc am eu hawliau

Gofynnwyd yr un pedwar cwestiwn am hawliau plant i blant a phobl ifanc yn yr holiaduron 7-11 ac 11-18+.

Yn gyntaf, gofynnwyd dau gwestiwn iddyn nhw am eu gwybodaeth ynghylch hawliau plant yn gyffredinol, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dywedodd ychydig dros hanner y plant a'r bobl ifanc eu bod yn gwybod am hawliau plant, ond dim ond rhyw draean oedd yn gwybod pa hawliau sydd gan blant o dan CCUHP. Roedd gwybodaeth am y materion hyn ychydig yn uwch ymhlith y grŵp oedran iau na'r un hŷn.

Yn ail, fe'u holwyd ynghylch dysgu am hawliau plant yn yr ysgol a'r coleg. Dywedodd dros 60% o'r plant yn y grŵp oedran 7-11 eu bod wedi dysgu am hawliau plant. Ar y llaw arall, dim ond tua dau-bumed (39%) o'r bobl ifanc 11+ ddywedodd eu bod wedi dysgu am hawliau plant yn yr ysgol neu'r coleg, cyfran is na'r 50% a ddywedodd eu bod yn gwybod am hawliau plant, sy'n awgrymu eu bod wedi cael yr wybodaeth honno o ffynonellau eraill. Roedd gan dros hanner y plant a'r bobl ifanc yn y ddau grŵp oedran ddiddordeb mewn dysgu mwy am hawliau plant.




Ffigur 16: Hawliau Plant

Lefel pryder gweithwyr proffesiynol ynghylch gwybodaeth plant am eu hawliau

”Sicrhau bod pob ysgol yn cofleidio CCUHP”
Athro

Roedd tua phumed ran o'r gweithwyr proffesiynol yn nodi gwybodaeth plant am eu hawliau fel pryder mawr, ac roedd hanner union yn rhoi gradd '3' neu '4' i'w pryder.



Ffigur 17: Lefelau pryder ynghylch gwybodaeth plant am eu hawliau



Blaenoriaethau

“ Hoffwn i weld Cymru sy’n
galluogi pob un plentyn
a pherson ifanc y cyfle i
gyrraedd eu potensial llawn.”

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru




Blaenoriaethau

Un o brif nodau'r holiaduron oedd casglu safbwyntiau plant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch sut bydden nhw'n blaenoriaethu'r pynciau allweddol a gynhwyswyd yn yr holiadur. Dewiswyd y pynciau hyn oherwydd iddynt gael eu codi'n fynych yn ystod cyfnod 1 o'r ymgynghoriad. Roedd pob holiadur yn cynnwys cwestiwn blaenoriaethu, a addaswyd yn ôl y grŵp targed o ymatebwyr.

Plant 3 oed a throsodd

Cyflwynwyd is-set o flaenoriaethau, a oedd yn ymddangos yn berthnasol i'w hoed, i blant yn y grŵp oedran ifancaf eu harchwilio yn y cyfnod hwn o'r ymgynghoriad. Gallai plant ddewis dau o restr o saith opsiwn. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Ffigur 18 yn amlygu pwysigrwydd chwarae i'r grŵp oedran yma, gyda 'mwy o leoedd i chwarae' yn brif flaenoriaeth. Dewiswyd y pedair eitem nesaf gan gyfran gymharol debyg o blant.




Ffigur 18: Beth gall Sally wneud i wella bywydau plant? (2 ddewis)

Plant 7-11 oed

Holwyd plant yn y grŵp oedran yma ynghylch rhestr hwy o 12 blaenoriaeth, y gallen nhw ddewis hyd at bump ohonynt. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 19. Y flaenoriaeth uchaf, a ddewiswyd gan dros hanner y plant, oedd stopio bwlio, ac roedd y blaenoriaethau nesaf uchaf yn ymwneud â help i blant a theluoedd sy'n byw mewn tlodi a diogelwch yr ardal leol.

Cymharol ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y blaenoriaethau a ddewiswyd gan blant yn y grŵp oedran hwn o ran eu rhywedd, eu hoed a'r rhanbarth o Gymru lle roedden nhw'n byw, gan awgrymu set eitha cyffredin o flaenoriaethau yn y grŵp oedran yma ar draws y gwahanol is-grwpiau.




Ffigur 19: Blaenoriaethau i wneud pethau'n well i blant yng Nghymru (7-11)

Plant a phobl ifanc 11-18 oed

Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc 11-18 oed ddeuwis o blith rhestr debyg, ond gyda dwy eitem ychwanegol oedd yn ymwneud â gwersi ABCh a sut mae cefnogi pobl ifanc pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol neu'r coleg.

Y brif flaenoriaeth i'r grŵp oedran yma eto oedd stopio bwlio. Roedd y ddwy flaenoriaeth nesaf uchaf yn wahanol i rai'r grŵp oedran 7-11, ac yn ymwneud ag amddiffyn rhag trais a cham-drin yn y cartref (oedd yn y pumed safle gan y grŵp oedran iau) a mwy o gyfleusterau hamdden yn yr ardal leol (oedd yn y chweched safle gan y grŵp oedran iau).



Ffigur 20: Blaenoriaethau pobl ifanc o ran gwneud pethau'n well i bobl ifanc yng Nghymru (11-18)


Gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill

Cyflwynwyd cyfres debyg o flaenoriaethau i'r gweithwyr proffesiynol a'r oedolion eraill, gyda gwahanol eiriad ar gyfer pob eitem, a sawl eitem ychwanegol yn cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth, anghydraddoldebau daearyddol, cyfranogiad yn y cartref a hyrwyddo gwybodaeth am hawliau plant. Dangosir canlyniadau gweithwyr proffesiynol a rhieni ar wahân yn Ffigur 21. Sylwer bod y cwestiwn yn yr holiadur hwn yn ymwneud â blaenoriaethau'r Comisiynydd Plant yn hytrach na blaenoriaethau i wella bywydau plant a phobl ifanc yn gyffredinol, ac mae hynny'n golygu na ellir cymharu'r canlyniadau mewn gwirionedd â'r rhai a gyflwynwyd ar gyfer plant. Dylid nodi hefyd nad ydym yn gwybod pa mor gynrychioliadol oedd y samplau o weithwyr proffesiynol a rhieni.

Y brif flaenoriaeth ymhlith oedolion oedd gwell gwasanaethau cymorth llesiant a iechyd meddwl, ac roedd y flaenoriaeth hon yn arbennig o gryf ymhlith gweithwyr proffesiynol.

O dan hynny roedd peth anghytundeb barn:

- Ymhlith y gweithwyr proffesiynol y ddwy flaenoriaeth nesaf oedd gwella'r amddiffyniad i blant yn y cartref a helpu i blant a theuluoedd sydd mewn tlodi.
- Ymhlith rhieni, yr ail a'r drydedd flaenoriaeth oedd gwell cyfleusterau chwarae a hamdden ar gyfer plant a thaclo bwlio.



Ffigur 21: Blaenoriaethau gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill i'r Comisiynydd Plant

Diwedd glo

Mae ymgynghoriad Beth Nesa? wedi bod yn garreg filltir bwysig i mi, yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd Plant Cymru, a'm tîm. Hwn yw'r ymgynghoriad mwyaf cynhwysfawr a gynhaliwyd gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru erioed ac mae wedi bod yn anghyffredin oherwydd ystod oed y plant, a'r ffaith ei fod wedi cynnwys plant a phobl ifanc sydd ddim yn yr ysgol. Anaml y bydd holiaduron o'r math hwn ar raddfa fawr yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa, yn yr ysbyty ac mewn llety i'r digartref, yn ogystal â rhai sydd yn yr ysgol.

Mae llawer o'r atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn dod â gwybodaeth newydd i Gymru. Er enghraifft, er bod plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu holi am eu hymddygiad, er enghraifft i ba raddau maen nhw'n ysmegu neu'n yfed alcohol, a faint o ymarfer corff maen nhw'n ei wneud, mae eu holi am deimlo'n ddiogel, eu cyfranogiad yn yr ysgol a'r ardal leol, a'u teimladau am eu cymuned leol yn bynciau maen nhw'n cael eu holi yn eu cylch yn llawer llai aml. Bydd yr adroddiadau manylach ar gyfer pob grŵp oedran, a gyhoeddir yn ystod 2016, yn adnoddau defnyddiol ar gyfer pawb sydd â diddordeb ym marn a phrofiadau plant a phobl ifanc, yn ogystal â darparu ffynhonnell o dystiolaeth i mi a'r tîm wrth i mi gychwyn ar fy nghynllun strategol ar gyfer 2016-19.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i'w gweld yn glir yn 'Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-19', sy'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Fy mlaenoriaethau yw:

- Iechyd meddwl, llesiant a mynd i'r afael â bwlio
- Tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol
- Chwarae a hamdden
- Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol ac yn y cartref)
- Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hyrwyddo'r broses o'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus
- Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus

Yn bwysig, mae'r ymwneud eang â'r gwaith hwn yn dangos bod gan blant a phobl ifanc farn bwysig pan fyddan nhw'n cael cyfle i gymryd rhan. Ar hyn o bryd yng Nghymru mae gennym ni Holiadur Cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth am farn oedolion a rhai pobl ifanc, ond dyw pobl ifanc o dan 16 oed ddim yn cael eu cynnwys. Os ydym ni eisiau gwlad sy'n troi o gwmpas ei dinasyddion mae angen i ni osod gwerth ar fewnbwn ein holl blant a phobl ifanc, a'u trin hwythau fel dinasyddion.

Ar sail canfyddiadau Beth Nesa? mae rhai negeseuon clir ynghylch y ffaith bod llawer o blant yn teimlo'n gadarnhaol am eu hardal leol, yn ddiogel a'u bod yn cael gwrandawriad yn yr ysgol ac yn gwybod am eu hawliau. Fodd bynnag, mae plant, pobl ifanc ac oedolion wedi darparu rhai negeseuon cryf iawn ynghylch y pethau sydd angen newid i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae angen i ni edrych o'r newydd, a hynny mewn modd cynhwysfawr a systematig, ar sut rydyn ni'n darparu ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol plant. Allwn ni ddim gwahanu hynny oddi wrth un o'r prif ganfyddiadau, sy'n dweud wrthyn ni fod plant a phobl ifanc yn dal i brofi bwlio a phryderu amdano yn eu profiadau pob dydd.

Yn wir, roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng adroddiadau ynghylch llesiant emosiynol a phrofiadau o fwlio yn yr holiadur hwn.

Mae plant iau wedi gofyn i mi flaenoriaethu chwarae. Mae galwadau hefyd gan bob grŵp am weithredu ynghylch cyfleusterau mewn ardaloedd lleol, teimlo'n ddiogel gartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned, a helpu plant sy'n byw mewn tldi. Rwy'n pryderu bod plant a phobl ifanc o gefndir llai cefnog yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel ac yn hapus, o fod â rhywun i siarad â nhw, ac i fod â phethau i'w gwneud yn eu hardal leol na'u cyfoedion mwy cyfoethog.

Er mwyn bod yn driw i'm rôl fel pencampwr plant a phobl ifanc yng Nghymru, bydda i'n gweithio ar eu materion ac yn dylanwadu arny'n nhw mewn amrywiaeth o ffyrdd. Trwy barhau i wrando ar farn a phrofiadau plant a phobl ifanc, bydda i'n sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed ac yn destun

gweithredu gan yr holl wleidyddion a gweithwyr proffesiynol sy'n gallu gwella bywydau plant a phobl ifanc. Bydda i'n dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth wrth iddyn nhw gael eu datblygu, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal. Bydda i'n monitro polisiau a deddfwriaeth wrth iddyn nhw gael eu rhoi ar waith, ac yn sicrhau bod plant a phobl ifanc, ledled Cymru, yn cael y ddarpariaeth a'r amddiffyniad y maen nhw'n eu haeddu, gan fwynhau eu hawl i gyfranogi mewn ysgolion a chymunedau ar lefel leol a chenedlaethol. Yn olaf, bydda i'n hyrwyddo hawliau plant fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymwybodol bod yr hawliau hynny ganddynt, a bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu gwneud yn ganolog i'w gwaith.

Er na fydda i'n newid fy nheitl o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, gan nad oedd consensws y dylai'r teitl gynnwys 'pobl ifanc' (Atodiad 1), galla i gadarnhau y bydda i'n datblygu sut mae fy swyddfa'n gweithio. Bydd gan blant a phobl ifanc lwybr clir i ddylanwadu ar fy ngwaith trwy banel ymgynghorol rwy'n ei sefydlu, a bydda i'n fy ngwneud fy hun yn atebol iddyn nhw, ac i'r boblogaeth ehangach o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydda i'n sicrhau mod i'n gweithredu ar sail y negeseuon y mae'r holl blant a phobl ifanc wedi'u rhoi i mi trwy'r ymgynghoriad hwn. Bydda i hefyd yn parhau i wrando ar y miloedd o blant a phobl ifanc rwy'n dal i gwrdd â nhw fel rhan o'm gwaith beunyddiol, yn gofyn eu cyngor ar beth ddylai ddigwydd nesaf. Mae cymdeithas gref yn gosod gwerth ar ei holl ddinasyddion ac yn cynnwys pawb ohonynt. Fy her i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phob gwasanaeth cyhoeddus yw eu bod yn gwrando ar blant a phobl ifanc yn yr un modd, gan osod gwerth ar eu cyfraniad fel dinasyddion. Bydd Cymru'n gryfach o ganlyniad.

Atodiad 1

Beth ydych chi'n meddwl ddylsai'r Comisiynydd Plant cael fel ei theitl?

	7 TO 11	11 TO 18
Comisiynydd Plant Cymru	35.6%	26.5%
Ychwanegu'r geiriau 'pobl ifanc' i'r teitl enw	9.7%	28.4%
Rhywbeth arall	7.6%	11.9%
Ddim yn siwr	26.1%	23.1%
Heb ateb	20.9%	10.1%
Cyfanswn	100%	100%

Atodiad 2: Y gwahaniaethau rhwng is-grwpiau o bobl ifanc

Yn yr holiadur o bobl ifanc 11-18+ gwnaed cymariaethau ystadegol rhwng gwahanol is-grwpiau o bobl ifanc yn ôl rhywedd, grŵp oedran a chyfoeth y teulu ar gyfer 30 o ddangosyddion allweddol a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol. Crynhoir y canlyniadau yn Nhabl 4, sy'n amlygu gwahaniaethau y cafwyd eu bod yn ystadegol arwyddocaol. Dengys celloedd gwag nad oes gwahaniaeth arwyddocaol. Dylid cadw mewn cof nad yw'r holiadur yn sampl cynrychioliadol (er ei fod wedi cael ei bwysoli i adlewyrchu rhywedd, oedran a chyfansoddiad rhanbarthol y boblogaeth), felly ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y canfyddiadau hyn.

Rhywedd

- Roedd bechgyn yn fwy bodlon na merched ar sawl agwedd o'r ardal leol – cyfleusterau, teimlo'n ddiogel, a chael gofyn eu barn.
- Roedd bechgyn hefyd yn fwy tebygol o feddwl bod oedolion yng Nghymru yn parchu hawliau plant.
- O ran bwlio yn yr ysgol, roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gael eu taro gan bobl ifanc eraill, tra bod merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu gadael allan gan bobl ifanc eraill.
- Roedd gan fechgyn lefel uwch o lesiant emosiynol na merched yn achos pedwar o'r pump dangosydd.

Grŵp Oedran

- Wrth i bobl ifanc dyfu i fyny mae gostyngiad yn lefelau cytuno a gwerthusiadau cadarnhaol mwyafrif mawr y pynciau oedd yn derbyn sylw yn yr holiadur.

- Roedd y profiad o'r tri math o fwlio'n gostwng wrth dyfu i fyny, ond ar y llaw arall roedd teimladau o fod yn ddiogel yn yr ardal leol yn gostwng gydag oed.
- Roedd tuedd i lefelau llesiant emosiynol pobl ifanc hŷn fod yn is. Roedden nhw'n teimlo eu bod nhw'n gwybod mwy am wasanaethau lleol a allai ddarparu cefnogaeth emosiynol, ond roedden nhw'n fwy tebygol o gadw materion iddyn nhw eu hunain nag i geisio help gan eraill.
- Teimlai'r Grwpiau Oedran hŷn hefyd eu bod yn gwybod mwy am Gonfensiwn y CU, er bod y grŵp oedran 11-13 wedi dysgu mwy am hawliau plant yn gyffredinol yn yr ysgol.

Cyfoeth Teuluol

- Roedd tuedd i blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn teuluoedd mwy cefnog werthuso'n fwy cadarnhaol ar draws nifer o bynciau allweddol:
- Roedden nhw'n fwy tebygol o gytuno bod cyfleusterau lleol yn dda.
 - Roedden nhw'n fwy tebygol o hoffi mynd i'r ysgol.
 - Roedd ganddyn nhw lesiant emosiynol gwell o ran y pum dangosydd ac roedden nhw'n llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n cadw problemau emosiynol iddyn nhw eu hunain.
 - Roedden nhw'n teimlo'n fwy diogel yn yr ysgol ac yn eu hardal leol ac yn llai tebygol o ddioddef galw enwau yn yr ysgol ac erledigaeth gan bobl ifanc eraill yn yr ardal leol.
 - Roedden nhw'n fwy tebygol o feddwl bod oedolion yn yr ardal leol ac yng Nghymru yn gyffredinol yn gwrando ar eu barn ac yn fwy tebygol o feddwl bod oedolion yng Nghymru yn parchu hawliau plant.

Y canfyddiadau

DARPARIAETH	RHYWEDD	GRŴP OEDRAN	CYFOETH
Ceisio help: Cadw pethau i mi fy hun		Cynyddu	Gostwng
Ceisio help: Gwybodaeth am wasanaethau		Cynyddu	
Ardal leol: Pethau difyr i'w gwneud (cytuno)	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Ardal leol: Dim i'w wneud (anghytuno)	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Ardal leol: Lleoedd i fynd (cytuno)	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Ysgol: Mwynhau ABCh		Gostwng	
Ysgol: Hoffi mynd		Gostwng	Cynyddu
DIOGELWCH	RHYWEDD	GRŴP OEDRAN	CYFOETH
Dioddef bwlio yn yr ysgol: Taro	Bechgyn>Merched	Gostwng	
Dioddef bwlio yn yr ysgol: Gadael allan	Merched>Bechgyn	Gostwng	
Dioddef bwlio yn yr ysgol: Galw enwau		Gostwng	Gostwng
Ardal leol: Teimlo'n ddiogel	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Ardal leol: Diogelwch ffyrdd			
Ardal leol: Erledigaeth			Gostwng
Ysgol: Teimlo'n ddiogel			Cynyddu
DWEUD EICH DWEUD	RHYWEDD	GRŴP OEDRAN	CYFOETH
Ardal leol: Oedolion yn gwrando		Gostwng	Cynyddu
Ardal leol: Gofyn barn	Bechgyn>Merched		
Ardal leol: Barn yn gwneud gwahaniaeth			
Ysgol: Gofyn barn		Gostwng	
Ysgol: Athrawon yn gwrando		Gostwng	
Ysgol: Barn yn gwneud gwahaniaeth		Gostwng	
Cymru: Oedolion yn gwrando		Gostwng	Cynyddu
Cymru: Oedolion yn parchu hawliau plant	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Cymru: Barn yn gwneud gwahaniaeth		Gostwng	
DEALL EICH HAWLIAU	RHYWEDD	GRŴP OEDRAN	CYFOETH
Hawliau: Gwybod am Hawliau CCUHP		Cynyddu	
Hawliau: Gwybodaeth			
Hawliau: Wedi dysgu yn yr Ysgol		Gostwng	
LLESIANT	RHYWEDD	GRŴP OEDRAN	CYFOETH
Llesiant emosiynol: Llawn egni	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Llesiant emosiynol: Hapus		Gostwng	Cynyddu
Llesiant emosiynol: Wedi ymlacio	Bechgyn>Merched	Gostwng	Cynyddu
Llesiant emosiynol: Trist	Merched>Bechgyn	Gostwng	Cynyddu
Llesiant emosiynol: Pryderus	Merched>Bechgyn	Gostwng	Cynyddu

Tabl 4: Cymharu'r dangosyddion allweddol fesul is-grŵp: Holiadur o bobl ifanc 11-18+



0808 801 1000 / 80800*

post@complantcymru.org.uk

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

@complantcymru

www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch:

Comisiynydd Plant Cymru

Rhadbost RRGL XLYC BHGC

Abertawe SA7 9FS

